# Atodiad 2 - Camau Galluogi i'w Cyflawni yn 2026/27

## Camau Newydd ar gyfer 2026/27

| Blaenoriaeth Strategol | Cam Galluogi |
|---|---|
| Cynhyrchiant | Byrddau iechyd i sicrhau bod y model cynhyrchiant ffactorau cyfan yn cael ei ddefnyddio, a nodi'r camau a'r effaith feintioledig ar gynhyrchiant a fydd yn cynyddu cyfanswm cynhyrchiant yn 2026/27 o safle'r llinell sylfaen. |
| Iechyd Meddwl | Byrddau iechyd i roi camau ar waith i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoliadau o'r tu allan i'r ardal yn 2026/27, a'r costau cysylltiedig. |

## Camau i gael eu trosglwyddo i 2026/27 gan ddefnyddio'r diffiniad presennol

| Blaenoriaeth Strategol | Cam Galluogi |
|---|---|
| Mynediad Amserol at Ofal | Gwelliant yn y broses o weithredu a chyflawni rhestrau Triniaethau Cyffredin â Chymhlethdod Isel (HVLC) Theatrau, gyda ffocws cychwynnol ar y canlynol: Cataractau - 90% o restrau i gael 7 cataract fesul rhestr erbyn diwedd Ch2, Cymalffurfiad - 90% o restrau i gynnwys pedwar prif gymal y dydd a chyflawni o leiaf chwe thriniaeth Llawfeddygaeth Gyffredinol HVLC 90% o'r amser ar restr diwrnod cyfan sy'n cynnwys torgest/coden y bustl erbyn diwedd Ch2 |
| Meithrin Gallu yn y Gymuned | Helpu i weithredu a chyflwyno ap GIG Cymru er mwyn sicrhau'r effaith a'r budd mwyaf, gan gynnwys y nifer sy'n ei ddefnyddio ar gyfer amlbresgripsiynau. |
| Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian | Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau – sicrhau y caiff argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd eu rhoi ar waith, gan gynnwys rhoi dewisiadau cynnyrch gorfodol a gymeradwywyd yn glinigol ar waith yn lleol er mwyn sicrhau cyfran mor fawr â phosibl o'r farchnad a'r gwerth gorau. |
| | Rheoli Meddyginiaethau – sicrhau y caiff rhaglen meddyginiaethau gwerth uchel y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ei rhoi ar waith yn llawn, gan gynnwys cynnig cyfleoedd mewn perthynas â phob un o feysydd y rhaglen. |
| | Ystad – sicrhau y caiff camau gweithredu wedi'u cryfhau eu cymryd i wella'r defnydd o'r ystad, gan gynnwys gwaredu rhannau o'r ystad nas defnyddir yn ddigonol a'u haddasu at ddibenion gwahanol. |
| | CIC – sicrhau y caiff argymhellion y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd eu rhoi ar waith, gan gynnwys camau gweithredu parhaus i wella effeithiolrwydd clinigol ac ariannol sy'n gysylltiedig â phecynnau gofal. |
| Gwella Gwerth, Optimeiddio Canlyniadau, a | Sicrhau cynnydd o ran rhoi llwybr Gwerth Uchel Effaith Sylweddol y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith – Iechyd Esgyrn |

| | |
|---|---|
| Lleihau Amrywiadau | |
| Cynhyrchiant y Gweithlu | Sicrhau y caiff polisi cynllunio swyddi ei roi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod gan >90% o'r holl feddygon ymgynghorol gynllun swydd y cytunwyd arno bob amser erbyn 30 Medi 2026 a'i fod yn cyd-fynd â chynlluniau capasiti a'r galw ar y gwasanaeth. |
| | Parhau i sicrhau lleihad pellach a pharhaus mewn gwariant ar staff asiantaeth, gyda tharged o ostyngiad o 30% yn 2026/27 o alldro 2025/26, a sicrhau dim gwariant oddi ar gontract. |
| | Rhoi'r camau gweithredu a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru ar fframwaith rheoli cyflogau amrywiadwy a gwariant ar staff asiantaeth ar waith yn llawn |
| | Sefydliadau sydd wedi sicrhau lleihad mewn gwariant ar staff asiantaeth sy'n Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, staff Gweinyddol a Chlercol, a staff Ystadau ac Ategol i gynnal y lleihad hwnnw. Sefydliadau nad ydynt wedi sicrhau'r lleihad hwnnw eto i gyrraedd sero erbyn 30 Medi 2026. |
| | Sicrhau lleihad mewn absenoldeb oherwydd salwch yn 2026/27 o gymharu â 2025/26, drwy sicrhau cymaint â phosibl o gydymffurfiaeth â gofynion polisïau presenoldeb yn y gwaith y cytunwyd arnynt a glynu wrth lefelau gwasanaeth gofynnol Iechyd Galwedigaethol Cymru gyfan. |

## Camau i gael eu trosglwyddo i 2026/27 gan ailddiffinio'r cam gweithredu

| **Blaenoriaeth Strategol** | **Cam gweithredu wedi'i ddiffinio o'r newydd ar gyfer 26/27** |
|---|---|
| Mynediad Amserol at Ofal | Sicrhau y caiff y Llwybr Delfrydol Cenedlaethol ar gyfer Canser ei roi ar waith yn llawn |
| | Gwella'r defnydd o sesiynau mewn theatrau er mwyn cyrraedd safon GiRFT o 85% - dechrau'n hwyr (>15 munud), gorffen yn gynnar (>60 munud) ac adrodd ar ddefnydd cyffredinol fel DPAau fel sail i'r safon 85% |
| | Dylai trefniadau dilysu clercol a chlinigol cyson fod ar waith gan ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredu Safonol - dylid dilysu unrhyw glaf sy'n aros mwy na 26 wythnos. Caiff nifer y llwybrau caeedig lle na chaiff claf ei dderbyn i'r ysbyty eu monitro fel procsi gyda chymorth ymweliadau gan dîm y Rhaglen Genedlaethol |
| | Dylai pob Bwrdd Iechyd weld cyfradd dychwelyd atgyfeiriadau o 20+% a/neu gyfradd atgyfeirio is fesul 100,000 o'r boblogaeth erbyn mis Rhagfyr 2026 - gan ddefnyddio Llwybrau Iechyd mewn ffordd ddelfrydol. |

| | |
|---|---|
| | Drwy ffrydio cleifion yn effeithiol pan fyddant yn cyrraedd y drws ffrynt ar y cyd â ffocws ar ryddhau cleifion yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gynnar, trosglwyddo pob claf o ambiwlansys o fewn 45 munud ar y mwyaf, gan anelu at drosglwyddo >90% mewn 15 munud erbyn diwedd 2026/2027. |
| | Cyflawni, fel gofyniad sylfaenol, pob egwyddor a nodir yn Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng gyda ffocws ar weithio dros 7 diwrnod, prosesau ysbyty acíwt mwy effeithlon a gwasanaethau cludo mwy effeithlon i ryddhau cleifion gyda'r nod o hwyluso trefniadau rhyddhau cynharach a chynyddu nifer y cleifion a gaiff eu rhyddhau ar y penwythnos. |
| | Darparu Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a gwasanaethau eiddilwch acíwt wrth ddrws ffrynt ysbytai yn unol â'r holl egwyddorion a nodir yn y polisi a'r dogfennau strategol cenedlaethol ar gyfer Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, a *Fframwaith Gwasanaeth Eiddilwch Acíwt Drws Ffrynt (AFS) ar gyfer Ysbytai Acíwt* y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. |
| | Cyflawni, fel gofyniad sylfaenol, pob egwyddor a nodir yn Fframwaith Ymateb i Gwympiadau yn y Gymuned y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ac, i gefnogi hyn, canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar yn unol â'r datganiad polisi ar reoli iechyd y boblogaeth. |
| | Cyflawni, fel gofyniad sylfaenol, pob egwyddor a nodir yn Fframwaith Un Pwynt Mynediad y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng er mwyn sicrhau bod pobl ag anghenion gofal brys yn cael cymorth amserol a phriodol, gan leihau achosion o uwchgyfeirio i drefniadau cludo brys mewn ambiwlans neu dderbyn unigolion i'r ysbyty heb fod angen.<br><br>Blaenoriaethu ymyriadau wedi'u teilwra ar gyfer oedolion hŷn a bregus, gan roi'r fenter "galw cyn cludo" ar waith ar raddfa fwy fel model busnes fel arfer ac atgyfeirio at wasanaethau nyrsio yn y gymuned er mwyn cael ymateb brys. Cryfhau prosesau integreiddio â phartneriaid system allweddol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Awdurdodau Lleol, er mwyn darparu gofal cydgysylltiedig ac effeithiol ar draws y llwybr gofal brys. |
| Iechyd y Boblogaeth ac Atal | Sicrhau cynnydd o ran rhoi'r llwybr Gwerth Uchel Effaith Sylweddol sy'n canolbwyntio ar Ddiabetes ar waith. |
| Gwella Gwerth, Optimeiddio | Cael gwared ar systemau a dyfeisiau nad oes cymorth ar gael ar eu cyfer mwyach, a sicrhau cynllun ymateb seiber clir ar gyfer y sefydliad. |

| | |
|---|---|
| Canlyniadau, a Lleihau Amrywiadau | |

Atodiad 1

## Camau gweithredu nad ydynt wedi cael eu trosglwyddo o 2025/26

| **Blaenoriaeth Strategol** | **Cam Galluogi** | **Nodyn** |
|---|---|---|
| Mynediad Amserol at Ofal | Rhoi meini prawf dilynol ar gyfer rhwydweithiau gweithredu clinigol ar waith yn rhagolygol ac yn ôl-weithredol ar gyfer rhestrau aros sefydledig am ofal dilynol. | Cam wedi'i gwblhau |
| | Ar 90% o ddiwrnodau, dylai capasiti gofal a gynlluniwyd ar gyfer cleifion mewnol/achosion dydd/adfer ar ôl theatr gael ei ddiogelu rhag pwysau yn sgil gofal heb ei drefnu a rhoi cleifion mewn wardiau anaddas i'w cyflwr erbyn diwedd Ch1. | Cam wedi'i gwblhau – dylai hyn gael ei ystyried yn fusnes fel arfer bellach |
| | Sicrhau bod trefniadau ar gyfer monitro cyfraddau DNA/CNA ar waith ar gyfer pob clinig cleifion allanol. Pan fydd y gyfradd ar gyfer DNA/CNA wedi'u cyfuno yn fwy na 5%, dylai trefniadau ar gyfer derbyn cleifion ychwanegol gael eu rhoi ar waith a'u monitro. | Cam wedi'i gwblhau – dylai hyn gael ei ystyried yn fusnes fel arfer bellach |
| | Rhoi canllawiau cenedlaethol ar waith gyda throthwyon gan weithdrefnau a rhwydweithiau gweithredu clinigol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau effeithiol i gleifion allanol drwy Sylw yn ôl Symptomau ac Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf yn ddiofyn. Bydd rhwydweithiau gweithredu clinigol unigol yn gosod targedau ar gyfer Sylw yn ôl Symptomau/Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf fesul arbenigedd ac is-arbenigedd ar sail barhaus erbyn mis Mawrth 2025. | Dylai'r cam gweithredu ddod yn fusnes fel arfer ond dylai barhau i gael ei fonitro drwy gyfarfodydd rhaglen a pherfformiad |
| | Sicrhau gwelliannau mewn cyfraddau llawdriniaethau dydd, gyda disgwyliad i gyflawni cyfradd achosion dydd BACDS o 70% o fis Ebrill 2025 ymlaen, gan godi i 80% erbyn diwedd mis Mehefin 2025. | Cam wedi'i gwblhau – dylai hyn gael ei ystyried yn fusnes fel arfer bellach |
| | Cynnal y camau gweithredu yn yr her 50 diwrnod y gellir eu rhoi ar waith yn gyson heb fawr ddim adnoddau ychwanegol, o fewn sefydliadau ac fel blaenoriaeth o fewn trefniadau partneriaeth rhanbarthol. | Caiff y cam gweithredu ei ddatblygu o dan y Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion o fewn y system Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. |
| | Dylai pob atgyfeiriad cataract gael ei restru'n uniongyrchol i gam triniaeth y llwybr yn dilyn brysbennu gweinyddol erbyn diwedd Ch2. | Cam wedi'i gwblhau – dylai hyn gael ei ystyried yn fusnes fel arfer bellach |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwneud cynnydd o ran rhoi'r dull cenedlaethol o ymdrin ag ymyriadau nas cynhelir fel arfer ar waith Cyflawni'r wyth triniaeth â blaenoriaeth a bennwyd fel rhan o Gam 1 | Dileu a chynnig trefniadau rheoli perfformiad drwy'r fframwaith optimeiddio |
| | Gwneud cynnydd o ran rhoi'r dull cenedlaethol o ymdrin ag ymyriadau nas cynhelir fel arfer ar waith - parhau i weithredu'r argymhellion sy'n dal i fynd rhagddynt drwy gydol 2025/26. | Dileu a chynnig trefniadau rheoli perfformiad drwy'r fframwaith optimeiddio |
| | Sicrhau cydymffurfiaeth lawn â chanllawiau profi'n syth | Dileu gan ei fod wedi cael ei gynnwys yn y Llwybr Delfrydol Cenedlaethol ar gyfer Canser |
| Gwella Gwerth, Optimeiddio Canlyniadau, a Lleihau Amrywiadau | Sicrhau cynnydd o ran rhoi llwybr Gwerth Uchel Effaith Sylweddol y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd ar waith – Cymalffurfiad (y glun a'r ben-glin). | Dileu a chynnig trefniadau rheoli perfformiad drwy'r fframwaith optimeiddio |